Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

# Adroddiad Gwaddol y Bumed Senedd

Mawrth 2021

www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddIechyd**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddIechyd@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddIechyd**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2021**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

# Adroddiad Gwaddol y Bumed Senedd

Mawrth 2021

www.senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddIechyd

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Dai Lloyd AS**
Plaid Cymru

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Rhun ap Iorwerth AS**
Plaid Cymru



**Angela Burns AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**David Rees AS**
Llafur Cymru



**Jayne Bryant AS**
Llafur Cymru



**Lynne Neagle AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** .......... **5**

**Argymhellion** .......... **6**

**Gweithgarwch y Pwyllgor yn ystod y Bumed Senedd** .......... **8**

**1. Cyflwyniad** .......... **9**

**2. Amcanion strategol ar gyfer y Bumed Senedd** .......... **10**

**3. Craffu ar bolisi** .......... **12**

Gwaith thematig y tymor hwy .......... 12

Gwaith sbotolau .......... 12

Gwaith ymatebol ac amserol .......... 13

Gwaith dilynol .......... 13

Sesiynau craffu cyffredinol a sesiynau briffio technegol .......... 14

Ymateb Llywodraeth Cymru i'n hargymhelliad .......... 14

Blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd .......... 15

COVID-19 .......... 15

Gwaith dilynol .......... 16

Materion eraill .......... 16

**4. Gwaith craffu ariannol** .......... **18**

Cyllidebau drafft Llywodraeth Cymru .......... 18

**5. Gwaith craffu deddfwriaethol** .......... **20**

Deddfwriaeth Sylfaenol (Biliau) .......... 20

Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol .......... 21

Gwaith craffu ar ôl deddfu .......... 22

**6. Gweithgarwch ymgysylltu** .......... **23**

**7. Gweithio ar draws y Senedd** .......... **25**

Gweithio gyda phwyllgorau'r Senedd .......... 25

Gweithio gyda Grwpiau Trawsbleidiol .......... 25

**8. Effaith COVID-19** .......... **27**

Effaith gychwynnol ar fusnes y Senedd ........ 27
Ailflaenoriaethu ein rhaglen waith ........ 27
Y dull o gasglu tystiolaeth ........ 27
Adroddiadau COVID-19 a materion o bwys ........ 28
Yr effaith ar ein gwaith nad yw'n gysylltiedig â COVID ........ 29
Cydweithio ........ 29
**Atodiad A: ymchwiliadau polisi ........ 31**
**Atodiad B: craffu deddfwriaethol ........ 33**

# Rhagair y Cadeirydd




Mae'r adroddiad gwaddol hwn yn benllanw ar waith y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon dros y pum mlynedd diwethaf.

Rydym yn ddiolchgar i'r holl unigolion a sefydliadau sydd wedi rhoi o'u hamser i ymgysylltu â'n gwaith yn ystod y Bumed Senedd. Mae ein gwaith craffu wedi elwa'n fawr ar eu parodrwydd nhw i rannu eu hamser, eu harbenigedd a'u profiad gyda ni.

Mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn gyfnod arbennig o heriol, nid yn unig i'r Pwyllgor, ond i bawb yng Nghymru. Fel pwyllgor y Senedd sy'n bennaf cyfrifol am iechyd a gofal cymdeithasol, aethom ati'n gyflym i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio, ac addasu ein ffocws yn barhaus i adlewyrchu cyd-destun esblygol yr argyfwng hwn o ran iechyd y cyhoedd.

Mae pandemig COVID-19 eisoes wedi cael effaith sylweddol ar staff, gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau ar draws y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a chwaraeon. Fodd bynnag, hyd yn oed wrth i ni ddod allan o'r ail don ac edrych ymlaen at adferiad Cymru, rydym yn cydnabod efallai na fydd gwir effaith y pandemig yn glir i ni am flynyddoedd i ddod.

Mae COVID-19, a'r ymateb iddo, wedi tynnu sylw at broblemau sylfaenol ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, gan waethygu'r sefyllfa ac effeithio'n sylweddol ar y gweithlu. Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru fynd i'r afael â'r problemau hyn fel blaenoriaeth. Bydd y pwyllgor a fydd yn ein holynu yn chwarae rôl allweddol wrth graffu ar ddull gweithredu Llywodraeth Cymru. Mater i'n holynwyr fydd penderfynu sut i ymdrin â'r gwaith hwn, ond rydym yn eu hannog i gynllunio'n strategol, i flaenoriaethu eu ffocws, i fod yn hyblyg, i ddefnyddio ystod o ddulliau ymgysylltu a chraffu, i sicrhau bod ystod eang o leisiau amrywiol yn cael eu clywed yn eu gwaith, ac i feithrin perthynas waith gref gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid.



**Dr Dai Lloyd AS**
Cadeirydd

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Yn ogystal ag ystyried materion yn ymwneud â COVID-19 sydd wedi codi ers diddymu'r Bumed Senedd, dylai ein pwyllgor olynol neilltuo amser ar ddechrau'r Chweched Senedd i ddatblygu amcanion strategol i lywio'r broses o nodi blaenoriaethau cychwynnol a datblygu ei raglen waith. Dylai hefyd ystyried cynnal gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd i lywio ei waith cynllunio strategol, ac i adolygu'r strategaeth yn ffurfiol ar adegau addas yn ystod y Chweched Senedd. ........ Tudalen 11

**Argymhelliad 2.** Dylai ein pwyllgor olynol sicrhau cydbwysedd, cyn belled ag y bo modd, rhwng mynd i'r afael â blaenoriaethau newydd, ymateb i faterion cyfoes ac ymrwymo amser i ymgymryd â gwaith dilynol. Dylai deilwra ei ddull o ymdrin â gwahanol faterion yn unol â'r pwnc penodol ac yn unol â'i amcanion strategol. ........ Tudalen 17

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru yn y Chweched Senedd barhau i wella manylder ac eglurder y wybodaeth am ddyraniadau cyllid o fewn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei chyllidebau blynyddol drafft. ........ Tudalen 19

**Argymhelliad 4.** Dylai ein pwyllgor olynol barhau i wneud craffu ariannol yn flaenoriaeth ar draws ei holl waith polisi a deddfwriaethol yn ystod y Chweched Senedd, yn ogystal â chraffu'n flynyddol ar gyllidebau drafft Llywodraeth Cymru. ........ Tudalen 19

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru yn y Chweched Senedd ystyried effaith ei rhaglen ddeddfwriaethol ar allu pwyllgorau i graffu'n effeithiol ar Filiau, ac i ddarparu ar gyfer gwaith craffu o'r fath yn eu rhaglenni gwaith ehangach. ........ Tudalen 20

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru yn y Chweched Senedd gymryd camau i sicrhau ei bod yn gallu rhoi cymaint o rybudd a chymaint o amser â phosibl ar gyfer y gwaith o graffu ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol. ........ Tudalen 22

**Argymhelliad 7.** Dylai ein pwyllgor olynol gynnwys gwaith craffu ar ôl deddfu ymhlith ei amcanion strategol a'i flaenoriaethau cynnar ar gyfer y Chweched Senedd. ........ Tudalen 22

**Argymhelliad 8.** Dylai ein pwyllgor olynol barhau i ymgymryd â gweithgarwch ymgysylltu anffurfiol i ategu'r gwaith ffurfiol o gasglu tystiolaeth. Dylai deilwra ei ddull o weithredu i adlewyrchu'r ymchwiliad penodol a'r gynulleidfa darged, a dylai barhau i chwilio am ffyrdd newydd ac arloesol o ymgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid. ........ Tudalen 24

**Argymhelliad 9.** Dylai ein pwyllgor olynol ystyried a oes yna gyfleoedd i weithio gyda phwyllgorau eraill y Senedd, grwpiau trawsbleidiol, neu eraill i fanteisio ar arbenigedd a chydweithio er mwyn ymchwilio i faterion a nodi gwelliannau a allai fod o fudd i bobl a chymunedau yng Nghymru........ Tudalen 26

**Argymhelliad 10.** Dylai ein pwyllgor olynol feithrin perthynas waith gydweithredol â Llywodraeth Cymru yn y Chweched Senedd, os yw hynny'n fodd o wella'r broses o gyflawni cyfrifoldebau craffu'r pwyllgor. ........ Tudalen 30

Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

## Ein gwaith yn ystod y Bumed Senedd

**36**
ADRODDIAD PWYLLGOR

**20**
YMCHWILIAD

**PUM**
BIL WEDI'U HYSTYRIED

**852** YMATEB I YMGYNGHORIADAU

CYFARFOD PWYLLGOR **150**

**556**
O YMDDANGOSIADAU GAN DYSTION

DIGWYDDIADAU I RANDDEILIAID **8**

**17**
DADL PWYLLGOR

# 1. Cyflwyniad

**1.** Rydym yn gyfrifol am graffu ar bolisi, gwariant a deddfwriaeth ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd, gofal cymdeithasol a chwaraeon. Mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar y sectorau hyn, fel pob agwedd arall ar fywyd yng Nghymru. Mae'r pandemig hefyd wedi effeithio ar ein dull gweithredu wrth ymdrin â'n gwaith.

**2.** Yn yr adroddiad hwn, rydym yn rhoi trosolwg cryno o'r gwaith a gyflawnwyd gennym yn ystod y Bumed Senedd, ac yn ystyried effaith y pandemig ar ein gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym hefyd yn gwneud argymhellion ac yn awgrymu meysydd blaenoriaeth i'n pwyllgor olynol yn y Chweched Senedd.

**3.** Gan nad oedd llawer o amser ar gael, a chan nad oeddem am roi pwysau gormodol ar ein rhanddeiliaid, penderfynom beidio â chynnal ymgynghoriad i lywio ein hadroddiad gwaddol. Mae'r adroddiad hwn felly'n adlewyrchu barn aelodau presennol y Pwyllgor.

**4.** Mae rhagor o wybodaeth fanwl am ein gwaith yn ystod y Bumed Senedd ar ein gwefan: www.senedd.cymru/SeneddIechyd

# 2. Amcanion strategol ar gyfer y Bumed Senedd

**5.** Fel rhan o'i waith gwaddol, cyhoeddodd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Pedwerydd Cynulliad alwad gyffredinol am dystiolaeth i wahodd y cyhoedd a rhanddeiliaid i rannu eu barn am ei waith ac i nodi blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

**6.** Gan adeiladu ar y gwaith hwn, penderfynom gyhoeddi galwad bellach am dystiolaeth rhwng mis Awst a mis Medi 2016 i lywio'r gwaith o ddatblygu ein hamcanion strategol a'n blaenraglen waith.

**7.** Roedd ein hymgynghoriad yn gwahodd rhanddeiliaid a'r cyhoedd i nodi'r prif flaenoriaethau y dylem eu hystyried yn ystod 18 mis cyntaf y Bumed Senedd, ac i rannu eu barn ar ymchwiliadau tymor hwy a awgrymwyd. Cawsom 76 o ymatebion.

**8.** Gwnaethom gynnal sesiwn cynllunio strategol breifat a hwyluswyd yn allanol ym mis Medi 2016. Yn ystod y sesiwn, gwnaethom fyfyrio ar yr ymatebion a gawsom, a, chan ystyried barn rhanddeiliaid a'r cyhoedd, cytunwyd ar amcanion strategol ar gyfer y Bumed Senedd a'n meysydd blaenoriaeth ar gyfer y tymor byr i'r tymor canolig.

**9.** Ein hamcanion strategol oedd ystyried y ffactorau a ganlyn fel rhan o'n holl waith:

- yr effaith ar anghydraddoldebau iechyd;
- i ba raddau yr aed ati i arfer dull gweithredu ataliol o ran iechyd a llesiant;
- y dystiolaeth o ymrwymiadau gwario effeithiol ac effeithlon;
- materion yn ymwneud â'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol;
- goblygiadau ymadawiad y DU â'r UE.

**10.** Gwnaethom hefyd gytuno i ganolbwyntio ar ganlyniadau; gwneud gwaith dilynol ar ôl cwblhau gwaith polisi a deddfwriaeth; ymdrechu i fod yn llais dibynadwy ac awdurdodol, ysgogi newid a dylanwadu ar bolisi; bod yn fforwm ar gyfer trafodaeth gyhoeddus a rhannu gwybodaeth, profiad ac arfer gorau; ac ymgysylltu'n rheolaidd ac yn ystyrlon â'r cyhoedd, rhanddeiliaid a chymdeithas ddinesig.

**11.** Gwnaethom gyhoeddi ein hamcanion strategol a'n blaenoriaethau tymor byr, ac ysgrifennu at bawb a ymatebodd i'n hymgynghoriad i ddiolch iddynt am eu barn ac i egluro beth fyddai ein dull gweithredu ar gyfer 12-18 mis cyntaf y Bumed Senedd.

**12.** Roedd ein dull o ran cynllunio strategol yn adlewyrchu'r arfer gorau a oedd yn dod i'r amlwg gan bob pwyllgor ar ddechrau'r Bumed Senedd. Gwnaeth y broses o nodi a chytuno ar ein hamcanion ein helpu i bennu blaenoriaethau clir, wrth gadw hyblygrwydd hefyd i ymateb i faterion a fyddai'n dod i'r amlwg. Rydym yn awgrymu y dylai ein pwyllgor olynol yn y Chweched Senedd ystyried mabwysiadu dull tebyg.

**13.** Gwnaethom gyhoeddi ein blaenraglen waith yn barhaus drwy gydol y Bumed Senedd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid am ein cynlluniau. Fodd bynnag, er i ni gadw ein hamcanion strategol mewn cof wrth i ni ystyried ein blaenraglen waith a datblygu cylch gorchwyl ar gyfer ein gwaith craffu, ni wnaethom eu hadolygu'n ffurfiol yn ystod y Bumed Senedd. Efallai bod hyn yn rhywbeth yr hoffai ein pwyllgor olynol ei ystyried.

**Argymhelliad 1.** Yn ogystal ag ystyried materion yn ymwneud â COVID-19 sydd wedi codi ers diddymu'r Bumed Senedd, dylai ein pwyllgor olynol neilltuo amser ar ddechrau'r Chweched Senedd i ddatblygu amcanion strategol i lywio'r broses o nodi blaenoriaethau cychwynnol a datblygu ei raglen waith. Dylai hefyd ystyried cynnal gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd i lywio ei waith cynllunio strategol, ac i adolygu'r strategaeth yn ffurfiol ar adegau addas yn ystod y Chweched Senedd.

# 3. Craffu ar bolisi

**14.** Yn ystod y Senedd hon, gwnaethom gynnal ystod eang o ymchwiliadau i faterion o fewn ein cylch gwaith. Mae'r portffolio iechyd, gofal cymdeithasol a chwaraeon yn eang, ac mae'n cynnwys materion o bwys. Wrth ddatblygu ein rhaglen waith, ein nod oedd sicrhau cydbwysedd rhwng iechyd corfforol, iechyd meddwl, iechyd y cyhoedd a llesiant pobl Cymru, gan gynnwys y system gofal cymdeithasol.

**15.** Mae rhestr o'r ymchwiliadau polisi a gynhaliwyd gennym yn ystod y Bumed Senedd yn Atodiad A. Gwnaethom deilwra ein hymagwedd at bob ymchwiliad yn unol â'r pwnc penodol ac yn unol â'n hamcanion strategol. Felly, mae ein gwaith wedi cynnwys gwaith thematig tymor hwy, gwaith sbotolau, gwaith ymatebol ac amserol, a gwaith dilynol. Yn ogystal â'n hymchwiliadau, cynhaliwyd sesiynau craffu cyffredinol gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus a swyddfeydd sy'n rhan o'n cylch gwaith, a chawsom sesiynau briffio technegol ar faterion o ddiddordeb.

## Gwaith thematig y tymor hwy

**16.** Mae rhai o'n hymchwiliadau wedi bod yn waith thematig tymor hwy, gan roi cyfle i ni gasglu sylfaen dystiolaeth sylweddol ac archwilio'r materion yn fanwl cyn dod i gasgliadau a gwneud argymhellion.

**17.** Mae ein hymchwiliadau thematig wedi cynnwys, er enghraifft: atal hunanladdiad, gweithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc, a darparu iechyd a gofal cymdeithasol ar yr ystâd carchardai i oedolion.

## Gwaith sbotolau

**18.** Mae rhai o'n hymchwiliadau wedi bod yn ddarnau byr, uniongyrchol a phenodol o waith sydd wedi ein galluogi i fynd i'r afael â chraidd y mater yn gyflym ac i nodi'r materion yr oedd angen i Lywodraeth Cymru weithredu arnynt i wella eu polisïau a'u syniadau o ran y penderfyniadau polisi a wneir ar y pynciau hyn.

**19.** Mae ein hymchwiliadau sbotolau wedi cynnwys: gwasanaethau endosgopi, deintyddiaeth yng Nghymru, Hepatitis C, nyrsio cymunedol a nyrsio ardal ac iechyd meddwl yng nghyd-destun plismona a dalfa'r heddlu. Ar sail y dystiolaeth a glywsom yn ystod ein hymchwiliad i recriwtio meddygol, gwnaethom hefyd gynnal ymchwiliad undydd i Restri Cyflawni Meddygol Cymru Gyfan.

## Gwaith ymatebol ac amserol

**20.** Cytunwyd ar ddechrau'r Bumed Senedd i gadw rhywfaint o hyblygrwydd yn ein rhaglen waith er mwyn gallu ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg. Mae'r materion hynny wedi cynnwys:

- Penderfyniad y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i roi gwasanaethau mamolaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg o dan fesurau arbennig. Gwnaethom gynnal sesiynau craffu gyda'r bwrdd iechyd, Cadeirydd y Panel Goruchwylio Gwasanaethau Mamolaeth Annibynnol, cynghorydd annibynnol y bwrdd iechyd, a phrif swyddogion Llywodraeth Cymru.

- Pryderon a godwyd gan gyrff gofal iechyd proffesiynol mewn ymateb i'r cyhoeddiad am ganlyniad y broses o gaffael y Fframwaith Systemau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol ar gyfer darparu systemau a gwasanaethau clinigol meddygon teulu i GIG Cymru yn y dyfodol. Cawsom sesiwn dystiolaeth gyda Choleg Brenhinol Meddygon Teulu Cymru a Chymdeithas Feddygol Prydain Cymru, a gwnaethom ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i dynnu sylw at ein pryderon a gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd.

## Gwaith dilynol

**21.** Elfen allweddol yn effaith a dylanwad pwyllgorau'r Senedd yw ein gallu i nodi materion, gwneud argymhellion, a chymryd camau dilynol i asesu pa gynnydd a wnaed.

**22.** Yn anffodus, oherwydd ehangder ein rhaglen waith, a'r angen i daro cydbwysedd rhwng craffu ar bolisi, deddfwriaeth a materion ariannol, mae'n anodd dod o hyd i'r amser i gynnal adolygiadau dilynol cadarn a systematig i asesu pa gynnydd a wnaed wrth weithredu ein hargymhellion. Mae'r sefyllfa wedi gwaethygu yn sgil pandemig COVID-19, a bu'n rhaid i ni ailflaenoriaethu ein gwaith a chwtogi'r amser a oedd ar gael i ni gyfarfod. Gwelsom hefyd fod pwysau sylweddol ar lawer o'r rhanddeiliaid y gallem fod wedi dymuno clywed tystiolaeth ganddynt fel arall.

**23.** Fodd bynnag, er nad oedd modd i ni gyflawni cymaint o waith dilynol, annibynnol, ar wahân, rydym yn sicrhau ein bod yn ystyried materion a godwyd mewn ymchwiliadau cynharach wrth drafod ein hadroddiadau a llunio ein hargymhellion. Er enghraifft, roedd ein hadroddiad ym mis Rhagfyr 2020 ar effaith COVID-19 ar iechyd meddwl yn cynnwys ailystyried ac ategu'r argymhellion

a wnaed yn ystod ein hymchwiliad i atal hunanladdiad yn 2018, ac roedd ein hadroddiad ym mis Mawrth 2021 ar effaith COVID-19 ar y sector gofal cymdeithasol a gofalwyr di-dâl yn cyfeirio at ein gwaith craffu ar ôl deddfu ar effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar ofalwyr.

## Sesiynau craffu cyffredinol a sesiynau briffio technegol

**24.** Yn ystod y Bumed Senedd cynhaliwyd sesiynau craffu cyffredinol gennym ar sawl achlysur gyda'r Gweinidogion y mae eu gwaith yn dod o fewn ein cylch gwaith. Gwnaethom hefyd gynnal cyfres o sesiynau craffu gyda deiliaid swyddi a sefydliadau perthnasol, gan gynnwys Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a byrddau iechyd lleol.

**25.** Cynhaliwyd sesiynau untro a sesiynau briffio technegol hefyd, gan gynnwys:

- Yn ystod gwaith yr Adolygiad Seneddol ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, gwnaethom gynnal trafodaeth breifat gyda Chadeirydd y Panel Adolygu. Yn dilyn hynny, cynhaliwyd dwy sesiwn dystiolaeth gyhoeddus gyda'r Cadeirydd ac aelodau'r Panel i drafod yr adroddiadau interim a'r rhai terfynol.
- Gwnaethom gynnal gwrandawiad cyn penodi fel rhan o'r broses recriwtio ar gyfer Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Buom yn craffu ar yr ymgeisydd a ffafriwyd gan Lywodraeth Cymru i asesu ei haddasrwydd ac i drafod ei blaenoriaethau a'i hamcanion ar gyfer y rôl. Gwnaethom sylwadau yn ein hadroddiad am y broses recriwtio, yn arbennig, i ba raddau yr oedd y broses yn annog ceisiadau gan ystod eang o ymgeiswyr amrywiol.
- Cawsom sesiwn friffio dechnegol gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar waith y Grŵp Rhyngweinidogol ar Dalu am Ofal Cymdeithasol.

## Ymateb Llywodraeth Cymru i'n hargymhelliad

**26.** Rydym yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn llawer o'r argymhellion a wnaed gennym yn ystod y Bumed Senedd. Mae argymhellion eraill wedi'u derbyn 'mewn egwyddor', er nad yw bob amser yn glir beth mae'r term hwn yn ei olygu'n ymarferol ac rydym yn credu y dylid rhoi'r gorau i'w ddefnyddio.

**27.** Fodd bynnag, nid yw'n ddefnyddiol bod ymatebion Llywodraeth Cymru i'n hadroddiadau, ar sawl achlysur, naill ai wedi derbyn ein hargymhellion neu eu derbyn mewn egwyddor, ond eu bod wedyn wedi manylu yn y naratif ar y

mesurau sydd eisoes ar waith yn hytrach na mynd i'r afael â'n hargymhellion penodol.

**28.** Roedd hyn yn amlwg, er enghraifft, yn ymateb y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg i argymhelliad 6 yn ein hadroddiad ar effaith COVID-19 ar iechyd meddwl a llesiant. Roedd ein hargymhelliad yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

> "…gymryd camau brys i ddeall pam mae cymaint o ddatgysylltiad rhwng sicrwydd byrddau iechyd ynghylch darparu gwasanaethau iechyd meddwl yn ystod y pandemig, a'r problemau sylweddol wrth geisio cael mynediad at wasanaethau sy'n cael eu hadrodd gan gleifion a gwasanaethau rheng flaen."

**29.** Yn hytrach na mynd i'r afael â'n pryderon penodol, roedd yr ymateb yn disgrifio'r mesurau atebolrwydd presennol, ac yn nodi'n syml y byddai'r Bwrdd Cyflawni a Goruchwylio Gweinidogol Law yn Llaw at Iechyd Meddwl i Gymru newydd yn "ychwanegu gwerth at y systemau hyn sydd eisoes yn bodoli". Fel y nododd Lynne Neagle AS yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar ein hadroddiad ym mis Mawrth 2021, nid aeth hyn i'r afael â'n pryderon, gan ein bod yn credu:

> "…fod gwir angen i Lywodraeth Cymru ymchwilio i hyn a sicrhau bod y dulliau sy'n cael eu defnyddio i wneud yn siŵr bod pobl yn cael gwasanaethau yn cynrychioli profiad bywyd pobl ar lawr gwlad mewn gwirionedd".

**30.** Mae'n siomedig bod Llywodraeth Cymru wedi dewis mabwysiadu'r dull hwn wrth ymateb i rai o'n hargymhellion, a byddem yn annog Llywodraeth Cymru yn y Chweched Senedd i beidio â mabwysiadu dull tebyg.

## Blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd

**31.** Rydym yn cydnabod mai mater i'n pwyllgor olynol fydd penderfynu ar y materion y mae'n dymuno eu cynnwys yn ei raglen waith. Fodd bynnag, byddem yn gofyn i'w aelodau ystyried y materion a ganlyn, yn ogystal ag unrhyw rai a nodir gan randdeiliaid neu Aelodau yn ystod proses gynllunio strategol y pwyllgor:

### COVID-19

- Parhau â'n gwaith ar effaith pandemig COVID-19 ar y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, yr ymateb iddo, a chynlluniau ar gyfer adferiad Cymru ar ôl y pandemig. Dylai hyn gynnwys gofyn am ymateb gan

Lywodraeth Cymru i'n hadroddiad ar effaith y pandemig ar y sector gofal cymdeithasol a gofalwyr di-dâl.

- Ymchwilio i'r effeithiau niweidiol anuniongyrchol sy'n deillio o'r pandemig a'r ymateb iddynt, gan gynnwys:
    - y goblygiadau i iechyd a llesiant meddyliol a chorfforol cymunedau a grwpiau amrywiol Cymru;
    - y goblygiadau i wasanaethau iechyd meddwl a gwaith atal hunanladdiad yng Nghymru.
- Ystyried goblygiadau COVID hir i'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

## Gwaith dilynol

**32.** Ar hyd y Bumed Senedd, rydym wedi gwneud gwaith ar faterion pwysig ac amserol ac wedi cynhyrchu allbynnau manwl sy'n gwneud argymhellion adeiladol ac ystyriol. Mae'n destun gofid felly nad ydym wedi gallu neilltuo amser yn ein blaenraglen waith i ailedrych ar rai o'r meysydd hyn ac i ymgymryd â darnau dilynol o waith. Byddem yn annog ein pwyllgor olynol i ystyried ymgymryd â gwaith dilynol ar y meysydd isod, yn arbennig:

- gofal cymdeithasol, yn enwedig natur fregus y farchnad gofal cymdeithasol;
- iechyd meddwl ac atal hunanladdiad;
- clystyrau meddygon teulu;
- llwybrau dementia;
- defnyddio meddyginiaeth wrthseicotig mewn cartrefi gofal.

## Materion eraill

- Parhau â'r gwaith a ddechreuwyd gennym mewn perthynas â sepsis a phrosesau rhyddhau o'r ysbyty, ond nad oedd modd i ni ei gwblhau oherwydd y pandemig.
- Gofyn am ymateb gan Lywodraeth Cymru i'n hadroddiad ar ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol ar yr ystâd carchardai i oedolion yng Nghymru, a dilyn hynt ein hargymhellion yn ystod y Chweched Senedd i asesu pa gynnydd a wnaed.

- Ystyried rhoi canllawiau NICE ar waith yn y GIG yng Nghymru, yn unol â chais y Pwyllgor Deisebau yn dilyn ei ystyriaeth o Ddeiseb P-05-812 Dylid gweithredu canllawiau NICE ar gyfer trin Anhwylder Personoliaeth Ffiniol.

- Yn dilyn ymestyn ail ddyletswydd Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn ddiweddar i gynnwys wardiau pediatreg ar gyfer cleifion mewnol yn 2020-21, monitro cynnydd o ran y bwriad a nodwyd gan Lywodraeth Cymru i ymestyn y ddyletswydd i leoliadau iechyd meddwl a mamolaeth. Byddem hefyd yn annog ein pwyllgor olynol i ystyried cynnal gwaith craffu ar ôl deddfu o ran y Ddeddf.

- Ystyried y trefniadau olynol a roddir ar waith o ran y cynlluniau cyflawni ar gyfer cyflyrau difrifol, gan gynnwys sut y bydd y datganiadau ansawdd a'r cynlluniau gweithredu newydd yn gweithio'n ymarferol, sut yr eir ati i fonitro ac asesu eu heffaith a sut y bydd gwasanaethau'n newid o ganlyniad i hyn.

**Argymhelliad 2.** Dylai ein pwyllgor olynol sicrhau cydbwysedd, cyn belled ag y bo modd, rhwng mynd i'r afael â blaenoriaethau newydd, ymateb i faterion cyfoes ac ymrwymo amser i ymgymryd â gwaith dilynol. Dylai deilwra ei ddull o ymdrin â gwahanol faterion yn unol â'r pwnc penodol ac yn unol â'i amcanion strategol.

# 4. Gwaith craffu ariannol

**33.** Mae gwariant ar iechyd yn gyfran sylweddol o gyllideb Llywodraeth Cymru, ac mae symiau sylweddol yn cael eu gwario ar ofal cymdeithasol hefyd. Felly, mae craffu ar wariant Llywodraeth Cymru a'r effaith yn sgil hynny wedi bod yn flaenoriaeth.

**34.** Roedd ein hamcanion strategol ar gyfer y Bumed Senedd yn cynnwys chwilio am dystiolaeth, yn ein gwaith ymchwil, o ymrwymiadau gwario effeithiol ac effeithlon. Yn ogystal â chynnal gwaith craffu blynyddol ar gyllidebau drafft Llywodraeth Cymru, rydym felly wedi cynnwys gwaith craffu ariannol fel rhan o'n gwaith craffu polisi a deddfwriaethol, ac fel rhan o'n sesiynau craffu gyda byrddau iechyd lleol a deiliaid swyddi sy'n rhan o'n cylch gwaith.

## Cyllidebau drafft Llywodraeth Cymru

**35.** Rydym wedi craffu ar gyllidebau drafft Llywodraeth Cymru bob blwyddyn, gan geisio trafod themâu allweddol o flwyddyn i flwyddyn yn ein gwaith craffu ac i ddilyn hynt yr argymhellion a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol. Mae'r themâu allweddol a nodwyd gennym yn ystod ein gwaith craffu wedi cynnwys:

- Effaith gwariant ar gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, a sut y caiff hyn ei fonitro, gan gynnwys yr effaith ar ganlyniadau i bobl a chymunedau yng Nghymru.
- Gwaith cynllunio ariannol a pherfformiad ariannol byrddau iechyd lleol.
- Cyllid ar gyfer trawsnewid gwasanaethau, gan gynnwys mwy o integreiddio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol a'r weledigaeth strategol sy'n llywio'r agenda drawsnewid.
- Gwariant ar iechyd meddwl, a'r defnydd o'r cyllid a neilltuwyd ar gyfer iechyd meddwl, gan gynnwys faint o fanylion sydd ar gael o ran gwariant a chanlyniadau.
- A yw cyllidebau olynol yn dangos yn glir sut y mae cyllid yn cefnogi newid tuag at ofal iechyd sylfaenol a chymunedol, a'r agenda iechyd ataliol, gan gynnwys rôl gweithgarwch corfforol.
- Natur fregus barhaus y sector gofal cymdeithasol, a'r angen am ddiwygiadau systemig er mwyn rhoi trefniadau ariannu hirdymor cynaliadwy ar waith.

- Goblygiadau cylchoedd ariannu tymor byr i gynllunio strategol a chynaliadwyedd, er enghraifft, i sefydliadau'r trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol, neu gyrff llywodraethu chwaraeon.
- Materion yn ymwneud â'r gweithlu, gan gynnwys cynllunio'r gweithlu, recriwtio, cadw staff, cyflog ac amodau, ac i ba raddau y mae cydraddoldeb ar draws y sectorau.
- Ceisio gwelliannau parhaus i'r wybodaeth gyllidebol a ddarperir, gan gynnwys rhagor o fanylion ac eglurder am y gwariant a'r dyraniadau o fewn llinellau'r gyllideb.

**36.** Pan fo'r amserlen wedi caniatáu, rydym wedi gofyn am dystiolaeth ysgrifenedig gan randdeiliaid perthnasol i lywio ein gwaith craffu. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r oedi o ran adolygiadau gwariant Llywodraeth y DU a chyllidebau drafft Llywodraeth Cymru yn sgil Brexit a phandemig COVID-19 wedi cyfyngu ar i ba raddau yr ydym wedi gallu ystyried barn rhanddeiliaid yn ein trafodaethau.

**37.** Rydym yn croesawu'r gwelliannau o ran y manylder a ddarperir gan Lywodraeth Cymru mewn cyllidebau drafft a chyllidebau dilynol mewn perthynas â'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae gwybodaeth well yn golygu y gallwn gyflawni gwaith craffu gwell, sy'n arwain yn ei dro at ganlyniadau gwell. Byddem yn annog Llywodraeth Cymru yn y Chweched Senedd i barhau i wella manylder ac eglurder ei dogfennau ynghylch y gyllideb, gan y bydd hynny'n rhoi darlun cliriach i'n pwyllgor olynol o gynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru yn y Chweched Senedd barhau i wella manylder ac eglurder y wybodaeth am ddyraniadau cyllid o fewn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei chyllidebau blynyddol drafft.

**Argymhelliad 4.** Dylai ein pwyllgor olynol barhau i wneud craffu ariannol yn flaenoriaeth ar draws ei holl waith polisi a deddfwriaethol yn ystod y Chweched Senedd, yn ogystal â chraffu'n flynyddol ar gyllidebau drafft Llywodraeth Cymru.

# 5. Gwaith craffu deddfwriaethol

**38.** Yn ogystal â'n rhaglen o graffu ar bolisi a materion ariannol, mae pum Bil, pum Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a dau Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol wedi cael eu cyfeirio atom i graffu arnynt. Gwnaethom hefyd gynnal un ymchwiliad craffu ar ôl deddfu.

## Deddfwriaeth Sylfaenol (Biliau)

**39.** Ein rôl mewn perthynas â deddfwriaeth sylfaenol yw ystyried egwyddorion cyffredinol unrhyw Filiau a gyfeirir atom (gwaith craffu Cyfnod 1) a gwaredu unrhyw welliannau a gyflwynir i Filiau o'r fath yn ystod y cyfnod diwygio cyntaf (gwaith craffu Cyfnod 2). Yn ystod y Senedd hon, mae pedwar Bil Llywodraeth Cymru ac un Bil Arfaethedig Aelod wedi'u cyfeirio atom i'w hystyried. Mae rhestr o'r Biliau hyn yn Atodiad B.

**40.** Nid oes gennym reolaeth dros amseru'r ddeddfwriaeth sylfaenol a gyflwynir, ac er bod y Pwyllgor Busnes yn ymgynghori â ni ynglŷn â'r amserlen arfaethedig ar gyfer y gwaith o graffu ar bob Bil, nid oes gennym lawer o ddylanwad. Rydym yn cydnabod y camau a gymerwyd gan y Pwyllgor Busnes ar ddechrau'r Senedd hon i fynd i'r afael â phryderon sy'n bod ers tro am y ffordd y gall craffu ar ddeddfwriaeth sylfaenol gael effaith anghymesur ar allu pwyllgorau i gynnal eu rhaglen o graffu ar bolisi. Fodd bynnag, gyda phum Bil yn cael eu cyfeirio atom yn ystod y Senedd hon, roedd taro cydbwysedd rhwng craffu ar ddeddfwriaeth, polisi a materion ariannol yn thema gyson i ni.

**41.** Roedd y mater yn arbennig o ddifrifol o ran Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru) 2020, pan gawsom dair wythnos yn unig i gyflawni ein gwaith craffu yng Nghyfnod 1. Effeithiodd hynny'n ddifrifol ar ein gallu i ymgysylltu â rhanddeiliaid ac roedd yn rhaid i ni aildrefnu mathau eraill o waith craffu a oedd wedi'i gynllunio. Nid oedd modd i ni gyhoeddi galwad gyffredinol am dystiolaeth o fewn yr amser a oedd ar gael, a dim ond un sesiwn dystiolaeth lafar yr oedd modd i ni ei chynnal yn yr amser prin a gawsom. Gwnaethom wahodd partïon â diddordeb i gyflwyno eu barn ar y Bil yn ysgrifenedig, ond dim ond chwe ymateb a gafwyd.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru yn y Chweched Senedd ystyried effaith ei rhaglen ddeddfwriaethol ar allu pwyllgorau i graffu'n effeithiol ar Filiau, ac i ddarparu ar gyfer gwaith craffu o'r fath yn eu rhaglenni gwaith ehangach.

## Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

**42.** Yn ystod y Bumed Senedd, cyfeiriwyd pum Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Memoranda) a dau Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memoranda Atodol) atom i graffu arnynt. Ein rôl ni yw ystyried y Memoranda a'r Memoranda Atodol, a chyflwyno adroddiad i'r Senedd.

**43.** Fel Pwyllgor, nid oes gennym ddim rheolaeth na dylanwad dros amseru'r Memoranda a gyfeirir atom, na'r amserlenni ar gyfer cyflwyno adroddiadau. Pennir yr amseru a'r amserlenni gan raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU, ac yn rhannol gan benderfyniadau Llywodraeth Cymru ynghylch a ddylid gosod Memoranda neu Femoranda Atodol a phryd i wneud hynny. Mae hyn yn arwain at fater sy'n bod ers tro, sef i ba raddau y gallwn ni, a phwyllgorau eraill y Senedd, ymgymryd â gwaith craffu manwl sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n cael ei lywio gan broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid.

**44.** Er enghraifft, yn achos y Memorandwm ar y Bil Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol), dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym nad oedd wedi cael digon o rybudd gan Lywodraeth y DU ynghylch cyflwyno'r Bil. O ganlyniad i hynny, roedd oedi ym mhroses y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, gan gynnwys cwtogi'r amser a oedd ar gael i ni graffu arno. Gwaed pethau'n waeth am fod Senedd y DU wedi cytuno ar welliannau hwyr i'r Bil, a chan fod Llywodraeth Cymru am aros nes bod cynnwys terfynol y Bil yn glir cyn penderfynu a ddylid argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad ai peidio.

**45.** Ar y llaw arall, yn sgil amserlen graffu ar y Memorandwm ar gyfer y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol, roedd cyfle i ni gyhoeddi galwad wedi'i thargedu am dystiolaeth ysgrifenedig, cynnal sesiwn dystiolaeth lafar a chyfnewid gohebiaeth â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Croesawyd hynny. Fodd bynnag, gan fod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn dal i drafod, nid oedd digon o wybodaeth ar gael i'n galluogi i ddod i farn ynghylch a ddylai'r Senedd roi cydsyniad. Gosodwyd Memorandwm Atodol maes o law, ond ni chafodd ei gyfeirio atom tan y diwrnod cyn ein cyfarfod olaf ym mis Rhagfyr 2020, gyda'r ddadl wedyn yn cael ei chynnal yn y Cyfarfod Llawn cyn ein cyfarfod cyntaf ym mis Ionawr 2021. Felly, nid oedd modd i ni ddiweddaru ein hadroddiad i roi cyngor i'r Senedd.

**46.** Rydym yn cydnabod mai penderfyniadau Llywodraeth y DU sy'n dylanwadu'n bennaf ar amseru Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a'r amserlenni ar gyfer craffu arnynt. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau y gall pwyllgorau'r Senedd gyflawni eu gwaith craffu'n effeithiol, mae'n bwysig bod perthynas waith dda a chyfathrebu effeithiol rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, a rhwng

Llywodraeth Cymru a'r Senedd, i roi cymaint o rybudd â phosibl, a chymaint o amser â phosibl i graffu ar Femoranda.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru yn y Chweched Senedd gymryd camau i sicrhau ei bod yn gallu rhoi cymaint o rybudd a chymaint o amser â phosibl ar gyfer y gwaith o graffu ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol.

## Gwaith craffu ar ôl deddfu

**47.** Wrth i gorff cyfraith Cymru dyfu, felly hefyd bwysigrwydd gwaith craffu ar ôl deddfu effeithiol a chadarn i ystyried sut y rhoddwyd y ddeddfwriaeth ar waith—gan gynnwys a oedd yr asesiadau ariannol ac asesiadau effaith eraill a gyflwynwyd ynghŷd â'r Bil yn gywir—ac asesu a yw'r ddeddfwriaeth yn cael yr effaith a fwriadwyd.

**48.** Ers i'r Senedd gael pwerau deddfu sylfaenol yn 2011, bu cryn weithgarwch deddfwriaethol yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, mae'r blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd yn ein rhaglen waith, wrth i ni graffu ar bolisi, deddfwriaeth a materion ariannol, wedi cyfyngu ar y graddau yr ydym wedi gallu ymgymryd â gwaith craffu ar ôl deddfu systematig neu helaeth. Gwnaed pethau'n waeth dros y flwyddyn ddiwethaf yn sgil pandemig COVID-19.

**49.** Serch hynny, yn sgil y pryderon a godwyd yn 2018 gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru nad oedd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cael yr effaith a ddymunwyd ar ofalwyr yng Nghymru, gwnaethom gynnal darn penodol o waith craffu ar ôl deddfu. Roedd ein gwaith yn ystyried gwerthusiad Llywodraeth Cymru ei hun o'r Ddeddf. Gwnaethom gyhoeddi galwad gyffredinol am dystiolaeth ysgrifenedig, cynnal gweithgarwch ymgysylltu anffurfiol gyda gofalwyr a gofalwyr ifanc, a chynnal naw sesiwn dystiolaeth lafar ffurfiol.

**50.** Rydym yn gresynu nad oedd modd i ni neilltuo mwy o amser i waith craffu ar ôl deddfu. Er bod ein pwyllgor olynol yn y Chweched Senedd yn debygol o wynebu pwysau ar ei raglen waith sy'n debyg i'r rhai a wynebwyd gennym ni, byddem yn ei annog i ystyried cynnwys gwaith craffu ar ôl deddfu fel amcan strategol a blaenoriaeth gynnar ar gyfer y Chweched Senedd.

**Argymhelliad 7.** Dylai ein pwyllgor olynol gynnwys gwaith craffu ar ôl deddfu ymhlith ei amcanion strategol a'i flaenoriaethau cynnar ar gyfer y Chweched Senedd.

# 6. Gweithgarwch ymgysylltu

**51.** Yn ystod y Senedd hon, rydym wedi ceisio sicrhau ein bod yn clywed gan amrywiaeth eang o bobl, gan gynnwys y rhai na fyddent yn ymgysylltu â phwyllgorau'r Senedd yn draddodiadol. Drwy deilwra gweithgarwch ymgysylltu i gynulleidfaoedd penodol, roeddem yn gallu rhoi llwyfan i bobl rannu eu barn gyda ni. Helpodd hyn ni i ddeall yr heriau yr oeddent yn eu hwynebu a'r materion a oedd yn bwysig iddynt, yn ogystal â rhoi sylw i'r cyfraniadau a wnaed gan staff rheng flaen, defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a'r cyhoedd yn y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a chwaraeon, ynghŷd â'u cydnabod a'u dathlu.

**52.** Er enghraifft, i lywio ein gwaith craffu ar Effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:

- Gwnaethom gynnal grwpiau ffocws a grwpiau trafod gyda gofalwyr.
- I dynnu sylw at gyfraniad gofalwyr ifanc, ac i gyd-fynd â Diwrnod Ymwybyddiaeth Gofalwyr Ifanc yn 2019, cynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu gyda gofalwyr ifanc ar ystâd y Senedd. Roedd hyn yn cynnwys gweithio gydag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru i wahodd gofalwyr ifanc o bob rhan o Gymru i gwrdd â ni mewn lleoliadau anffurfiol a ffurfiol i drafod eu profiadau a'u barn am fod yn ofalwyr ifanc.
- Cynhaliodd ein swyddogion gyfweliadau wedi'u ffilmio gyda gofalwyr ifanc.
- Cawsom dystiolaeth lafar ffurfiol gan dri gofalwr ifanc.

**53.** Yn anarferol am waith craffu deddfwriaethol, fel rhan o'r amserlen ar gyfer ein gwaith craffu Cyfnod 1 ar y Bil Awtistiaeth (Cymru), a gynigiwyd gan Paul Davies AS, cawsom amser i ymgysylltu'n fwy helaeth â rhanddeiliaid a'r cyhoedd. Dyma a wnaethom i lywio ein gwaith craffu:

- Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2018 a chael 34 o ymatebion.
- Cynnal pum sesiwn dystiolaeth lafar.
- Trefnu ymarferion ymgysylltu wedi'u teilwra gyda'r rheini y byddai'r Bil yn effeithio'n uniongyrchol arnynt, gan gynnwys: 10 sesiwn grŵp ffocws ledled Cymru i gasglu barn a phrofiadau trawstoriad o bobl; grwpiau trafod gydag aelodau o deuluoedd pobl ag Anhwylder ar y Sbectrwm

Awtistig a defnyddwyr gwasanaeth yn Siop Un Stop Autism Spectrum Connections Cymru yng Nghaerdydd.

**54.** Roedd llai o amser ar gael i ni ar gyfer gwaith craffu yng Nghyfnod 1 y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru), ond roeddem yn awyddus, serch hynny, i glywed gan bobl na fyddent fel arfer yn cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i ni. Felly, gwnaethom gynnal arolwg ochr yn ochr â'n galwad gyffredinol am dystiolaeth, gan ofyn i'r cyhoedd am farn ar y bwriad i gyflwyno un Corff Llais y Dinesydd yn lle'r Cynghorau Iechyd Cymuned. Gwnaethom hyrwyddo'r arolwg drwy'r cyfryngau cymdeithasol, a chawsom 178 o ymatebion.

**Argymhelliad 8.** Dylai ein pwyllgor olynol barhau i ymgymryd â gweithgarwch ymgysylltu anffurfiol i ategu'r gwaith ffurfiol o gasglu tystiolaeth. Dylai deilwra ei ddull o weithredu i adlewyrchu'r ymchwiliad penodol a'r gynulleidfa darged, a dylai barhau i chwilio am ffyrdd newydd ac arloesol o ymgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid.

# 7. Gweithio ar draws y Senedd

**55.** Fel Pwyllgor, ychydig o amser sydd ar gael i ni i ymdrin â'r ystod lawn o faterion sy'n rhan o'n cylch gwaith. Felly, rydym wedi chwilio am gyfleoedd i weithio gydag eraill i osgoi dyblygu gwaith ac i ehangu ein dull gweithredu. Mae'r gwaith hwnnw wedi cynnwys:

## Gweithio gyda phwyllgorau'r Senedd

- Gweithio gyda Phwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu i gytuno ar ddull cydweithredol o graffu ar faterion sy'n ymwneud â chwaraeon. Tra bod gweithgarwch corfforol yn rhan o'n portffolio, mae chwaraeon elît yn rhan o gylch gwaith Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu. Er mwyn osgoi dyblygu gwaith, cytunwyd felly â Phwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu mai'r Pwyllgor hwnnw fyddai'n cynnal ymchwiliad yn canolbwyntio ar effaith COVID-19 ar chwaraeon.
- Gweithio gyda'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i gytuno ar sut i rannu cyfrifoldebau mewn perthynas ag iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Er enghraifft, cytunwyd y byddai'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn arwain y gwaith o graffu ar ddyraniadau'r gyllideb ddrafft yn hyn o beth.

## Gweithio gyda Grwpiau Trawsbleidiol

- Trafod adroddiad Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Hosbisau a Gofal Lliniarol ar 'Anghydraddoldebau mewn mynediad at hosbisau a gofal lliniarol'. Gan gydnabod y gall fod yn anodd trafod y materion a godwyd yn yr adroddiad—marwolaeth a phrofedigaeth—a'u bod yn cael eu hanwybyddu'n aml, cynhaliwyd sesiwn dystiolaeth lafar gydag aelodau'r Grŵp Trawsbleidiol ac ysgrifennwyd wedyn at y Gweinidog i dynnu sylw at ein pryderon.
- Yn dilyn sylwadau a wnaed gan y Grŵp Trawsbleidiol ar Hosbisau a Gofal Lliniarol a'r Grŵp Trawsbleidiol ar Nyrsio a Bydwreigiaeth, gwnaethom gynnal ymchwiliad byr i wasanaethau nyrsio cymunedol a nyrsio ardal. Wrth ymateb i'n hadroddiad, derbyniodd y Gweinidog ein hargymhelliad i 'ddatblygu cynllun gweithredu cadarn i fynd i'r afael â phrinder nyrsys cymunedol i blant a phobl ifanc, ac oedolion â gofal lliniarol'.

**56.** Gall gweithio effeithiol ar draws y Senedd fel hyn fod yn ffordd effeithlon o gyfuno arbenigedd ac egni mewn perthynas â materion, heb y risg o ddyblygu gwaith. Byddem yn annog ein pwyllgor olynol i ystyried sut y gall weithio gyda phwyllgorau eraill a grwpiau trawsbleidiol i nodi a chyflawni amcanion a rennir.

**Argymhelliad 9.** Dylai ein pwyllgor olynol ystyried a oes yna gyfleoedd i weithio gyda phwyllgorau eraill y Senedd, grwpiau trawsbleidiol, neu eraill i fanteisio ar arbenigedd a chydweithio er mwyn ymchwilio i faterion a nodi gwelliannau a allai fod o fudd i bobl a chymunedau yng Nghymru.

# 8. Effaith COVID-19

## Effaith gychwynnol ar fusnes y Senedd

**57.** Ym mis Mawrth 2020, yn sgil pandemig byd-eang COVID-19, bu'n rhaid mynd ati'n gyflym i newid dulliau'r Senedd o gynnal busnes. Cafodd busnes pwyllgorau'r Senedd ei atal i ddechrau, ac yna ei ailddechrau ar ffurf rithwir ddiwedd mis Ebrill 2020.

**58.** Wrth gwrs, cafwyd rhai heriau cychwynnol wrth weithio o bell, gan gynnwys diogelwch TGCh a'r angen i Aelodau a staff ddysgu'n gyflym. Rydym yn ddiolchgar i dîm TGCh y Senedd am ei waith caled a'i gefnogaeth i'n helpu i fod yn un o bwyllgorau cyntaf y Senedd i gynnal cyfarfod rhithwir.

**59.** Hefyd, gwnaeth y Pwyllgor Busnes addasiadau sylweddol i amserlen fusnes y Senedd i adlewyrchu'r cyfyngiadau technolegol cychwynnol. Mae'r amserlen wedi esblygu yn ystod y pandemig, ac ym mis Ebrill 2020, ni oedd un o bwyllgorau cyntaf y Senedd i ailddechrau cyfarfod yn wythnosol.

## Ailflaenoriaethu ein rhaglen waith

**60.** Mae pandemig COVID-19 wedi rhoi pwysau sylweddol a pharhaus ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Felly, gwnaethom benderfynu mabwysiadu dull adeiladol a sensitif o gyflawni ein rôl o graffu ar faterion iechyd a gofal cymdeithasol a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Gwnaethom ailflaenoriaethu ein blaenraglen waith yn gyflym er mwyn ystyried gofynion sylweddol y pandemig ar randdeiliaid iechyd a gofal cymdeithasol, a'r cyfyngiadau ar yr amser sydd ar gael i ni a'r ystod o ddulliau sydd ar gael o fewn y cyfyngiadau technolegol cychwynnol.

## Y dull o gasglu tystiolaeth

**61.** Newidiodd y cyd-destun yn gyflym iawn yn sgil amgylchiadau digynsail y pandemig. Felly, gwnaethom gyhoeddi galwad dreigl am dystiolaeth, heb ddyddiad cau penodol. Roedd y ffordd newydd hon o weithio yn ein galluogi i gasglu tystiolaeth gan y cyhoedd, rhanddeiliaid a sefydliadau amrywiol yn barhaus, a chadw'r ymchwiliad yn berthnasol. Cawsom gyfanswm o 117 o ymatebion gan 105 o unigolion neu sefydliadau.

**62.** Gan fod llai o amser ar gael i'r Pwyllgor gyfarfod yn ffurfiol, a llai o sgôp ar gyfer gweithgarwch ymgysylltu anffurfiol, gwnaethom flaenoriaethu cynnal sesiynau tystiolaeth lafar i ddechrau gyda thystion allweddol o Lywodraeth Cymru,

sefydliadau a rhanddeiliaid. Wrth i'r pandemig fynd yn ei flaen, ac wrth i faterion o bwys ddod i'r amlwg, gwnaethom addasu ffocws ein sesiynau tystiolaeth yn unol â hynny. Rydym wedi cynnal cyfanswm o 43 o sesiynau tystiolaeth lafar gyda 113 o dystion.

**63.** Er mwyn sicrhau ein bod hefyd yn clywed lleisiau staff rheng flaen, gofalwyr, a phobl sy'n derbyn gofal neu driniaeth mewn lleoliadau clinigol a'r gymuned am effaith y pandemig, gwnaethom gynnal arolwg cyhoeddus a chael 97 o ymatebion. Cyhoeddwyd y canlyniadau interim ym mis Gorffennaf 2020, a'r canlyniadau terfynol ym mis Medi 2020.

## Adroddiadau COVID-19 a materion o bwys

**64.** Rydym wedi cyhoeddi tri adroddiad sy'n gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phandemig COVID-19 a'r modd y mae'n cael ei reoli:

- Cyhoeddwyd ein hadroddiad cyntaf ar effaith y pandemig a'r modd y mae'n cael ei reoli ym mis Gorffennaf 2020. Roedd yn ymdrin â materion yn cynnwys defnyddio a chyflenwi cyfarpar diogelu personol yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol; profi (gan gynnwys profi capasiti, profi mewn cartrefi gofal, profi staff mewn cartrefi gofal, a'r amseroedd aros ar gyfer canlyniadau profion); gwarchod i'r rheini sy'n agored i niwed yn glinigol (gan gynnwys rôl llywodraeth leol a'r gwasanaethau a ddarperir i bobl y cynghorwyd iddynt warchod eu hunain); strategaeth 'Profi, Olrhain, Diogelu' Llywodraeth Cymru (gan gynnwys defnyddio technoleg, cyfranogiad y cyhoedd yn y cynllun Profi, Olrhain, Diogelu, olrhain trawsffiniol, a'r adnoddau a'r cyllid sydd ar gael). Ymatebodd Llywodraeth Cymru ym mis Medi 2020, gan dderbyn, neu dderbyn mewn egwyddor, 27 o'n 28 argymhelliad. Cynhaliwyd dadl yn y Cyfarfod Llawn ym mis Medi 2020.

- Roedd ein hail adroddiad yn canolbwyntio ar effaith y pandemig ar iechyd meddwl, ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020. Roedd yn ymdrin â materion yn cynnwys mynediad at wasanaethau; cymorth profedigaeth; ffyrdd newydd o weithio; a'r effaith ar rai grwpiau, fel staff rheng flaen, pobl hŷn, ac ar blant a phobl iau. Ymatebodd Llywodraeth Cymru ym mis Medi 2020, gan dderbyn, neu dderbyn mewn egwyddor, pob un o'n 15 argymhelliad. Cynhaliwyd dadl yn y Cyfarfod Llawn ym mis Mawrth 2021.

- Roedd ein trydydd adroddiad yn canolbwyntio ar effaith y pandemig ar y sector gofal cymdeithasol a gofalwyr di-dâl, ac fe'i cyhoeddwyd ym

mis Mawrth 2021. Roedd yn ymdrin â materion gan gynnwys cyfyngiadau ar ymweliadau â chartrefi gofal; y rhaglen frechu; mynediad at gyfarpar diogelu personol; pwysau ariannol a staffio; mynediad at wasanaethau i ofalwyr di-dâl; gofal seibiant; gofalwyr ifanc a'r effaith ariannol ar ofalwyr yng Nghymru. Yn anffodus, gan fod yr adroddiad hwn wedi'i gyhoeddi yn fuan cyn y diddymiad, nid oedd digon o amser i ni gael ymateb gan Lywodraeth Cymru na chynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn.

**65.** Gwnaethom hefyd gasglu tystiolaeth yn nhymor y gwanwyn 2021 am effaith y pandemig ar amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID-19, cyflwyno rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru a phrofion COVID-19. Gwnaethom ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Mawrth 2021 i nodi'r materion o bwys yn y meysydd hyn.

**66.** Yn ystod ein gwaith o gasglu tystiolaeth, daeth i'r amlwg bod syndrom ôl-COVID neu COVID hir yn fater o bwys i'w drafod ymhellach. Gwnaethom gynnal sesiwn dystiolaeth ar COVID hir ym mis Mawrth 2021. Er nad yw holl effeithiau pandemig COVID-19 yn glir eto, credwn fod COVID hir yn fater a fydd yn cyflwyno heriau sylweddol yng Nghymru yn y blynyddoedd i ddod. Er y bydd hyn yn fater i'n pwyllgor olynol a Llywodraeth nesaf Cymru, byddem yn annog ein pwyllgor olynol i wneud rhagor o waith yn y maes hwn.

## Yr effaith ar ein gwaith nad yw'n gysylltiedig â COVID

**67.** Un o ganlyniadau anffodus ein penderfyniad i ganolbwyntio ein hamser cyfyngedig ar effaith COVID-19 yw na fu'n bosibl i ni gwblhau ein hymchwiliadau i sepsis a phrosesau rhyddhau o'r ysbyty cyn diwedd y Bumed Senedd. I ddechrau, gwnaethom ohirio ein gwaith ar y materion hyn ym mis Mawrth 2020, ond roeddem wedi gobeithio dychwelyd atynt yn ddiweddarach pe bai'r amgylchiadau wedi caniatáu. Rydym yn gresynu'n fawr nad oedd modd i ni barhau â'n gwaith ar y materion pwysig hyn, a byddem yn annog ein pwyllgor olynol i ailafael â'r gwaith hwn yn ystod y Chweched Senedd.

## Cydweithio

**68.** Rydym yn ddiolchgar i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg a'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth am y ffordd y maen nhw a'u swyddogion wedi ymgysylltu â'n gwaith yng nghyd-destun gofynion digynsail y pandemig.

**69.** Yn ogystal ag ymateb yn gadarnhaol i'n ceisiadau am dystiolaeth ysgrifenedig a llafar ffurfiol, rydym yn arbennig o ddiolchgar i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am gynnig sesiynau briffio anffurfiol wythnosol rheolaidd i ni i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am effaith pandemig COVID-19 ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r sesiynau wythnosol hyn wedi ein helpu i gael y wybodaeth ddiweddaraf am gyd-destun y pandemig sy'n newid yn gyflym.

**70.** Byddem yn annog ein pwyllgor olynol a Llywodraeth Cymru yn y Chweched Senedd i ddatblygu dull cydweithredol tebyg, os yw hynny'n fodd o wella'r broses o gyflawni cyfrifoldebau craffu'r pwyllgor.

**Argymhelliad 10.** Dylai ein pwyllgor olynol feithrin perthynas waith gydweithredol â Llywodraeth Cymru yn y Chweched Senedd, os yw hynny'n fodd o wella'r broses o gyflawni cyfrifoldebau craffu'r pwyllgor.

# Atodiad A: ymchwiliadau polisi

Mae'r tabl isod yn rhestru'r ymchwiliadau polisi a gynhaliwyd gennym yn ystod y Bumed Senedd. Mae rhagor o wybodaeth am bob ymchwiliad ar gael ar ein gwefan.

| Ymchwiliad | Dyddiad Cwblhau |
|---|---|
| Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon | Hydref 2016 |
| Parodrwydd ar gyfer y gaeaf 2016-17 | Chwefror 2017 |
| Strategaeth genedlaethol ddrafft Llywodraeth Cymru ar ddementia | Mawrth 2017 |
| Recriwtio meddygol | Medi 2017 |
| Gofal sylfaenol | Ionawr 2018 |
| Unigrwydd ac unigedd | Chwefror 2018 |
| Y defnydd o feddyginiaeth wrthseicotig mewn cartrefi gofal | Gorffennaf 2018 |
| Atal hunanladdiad | Chwefror 2019 |
| Gweithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc | Mai 2019 |
| Gwasanaethau endosgopi | Medi 2019 |
| Deintyddiaeth yng Nghymru | Hydref 2019 |
| Hepatitis C | Tachwedd 2019 |
| Nyrsio cymunedol a nyrsio ardal | Rhagfyr 2019 |
| Iechyd meddwl yng nghyd-destun plismona a dalfa'r heddlu | Ionawr 2020 |
| Effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â Gofalwyr | Ionawr 2020 |
| Sepsis* | Ionawr 2021 |
| Gwrandawiad cyn penodi - Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | Mawrth 2020 |
| Prosesau rhyddhau o'r ysbyty* | Ionawr 2021 |
| Darparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol ar yr ystâd carchardai i oedolion | Mawrth 2021 |
| Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru | Mawrth 2020 - Mawrth 2021 |

* O ganlyniad i effaith pandemig COVID-19, yn nhymor y gwanwyn 2020 penderfynwyd gohirio gwaith ar yr ymchwiliadau hyn i'n galluogi i ganolbwyntio

ar ein hymchwiliad i effaith y pandemig ar y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Penderfynom, gyda gofid, ym mis Ionawr 2021 na fyddai'n bosibl i ni gwblhau'r ymchwiliadau hyn yn yr amser sy'n weddill yn y Bumed Senedd.

# Atodiad B: craffu deddfwriaethol

Mae'r tabl isod yn rhestru'r Biliau y buom yn craffu arnynt yn ystod y Bumed Senedd. Mae rhagor o wybodaeth am bob Bil ar gael ar ein gwefan.

| Bil | Dyddiad Cwblhau |
|---|---|
| **Biliau Llywodraeth Cymru** | |
| Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 | Gorffennaf 2017 |
| Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 | Awst 2018 |
| Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru) 2020 | Chwefror 2020 |
| Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) | Mehefin 2020 |
| **Bil arfaethedig Aelod** | |
| Bil Awtistiaeth (Cymru) – cynigiwyd gan Paul Davies AS | Rhagfyr 2018 |

Mae'r tabl isod yn rhestru'r Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a'r Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol a gyfeiriwyd atom i graffu arnynt yn ystod y Bumed Senedd.

| Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol | Dyddiad Cwblhau |
|---|---|
| Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Heddlua a Throsedd | Medi 2016 |
| Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Plant a Gwaith Cymdeithasol | Rhagfyr 2016 |
| Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Cyflenwadau Meddygol (Costau) y Gwasanaeth Iechyd | Rhagfyr 2016 |
| Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: y Bil Ymosodiadau ar Weithwyr Gwasanaethau Brys (Troseddau) | Rhagfyr 2017 |
| Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: y Bil Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) | Ionawr 2019 |
| Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol<br>Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol | Ionawr 2021 |